

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO, DIOGELU'R CYHOEDD A  
GWASANAETH CEFN GWLAD**

**Cais am gyfraniad Aelod mewn  
Gwrandawriad Apêl Cynllunio  
45/2021/0516/ PF - KYNSAL HOUSE, VALE ROAD, Y RHYL**

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

I geisio cefnogaeth a chyfraniad Aelod(au) i amddiffyn penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer:

*“Newid defnydd o dir ac adeiladau ategol i ffurfio safle Teithwyr preswyl ar gyfer 6 carafân, gyda'r annedd bresennol Kynsal House yn cael ei gadw ar gyfer llety perchenogion/ rheolwyr; yn cynnwys ffurfio llwybrau mewnol a maes parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig“*

Bydd yr apêl yn cael ei gynnal fel Gwrandawriad Anffurfiol a bydd yn cael ei gynnal yn Nhŷ Russel, y Rhyl a chynhelir ar 30 Ebrill 2024.

**2. CEFNDIR**

Gofynnwyd am ganiatâd cynllunio yn 2022 ar gyfer:

*“Newid defnydd o dir ac adeiladau ategol i ffurfio safle Teithwyr preswyl ar gyfer 6 carafân, gyda'r annedd bresennol Kynsal House yn cael ei gadw ar gyfer llety perchenogion/rheolwyr; yn cynnwys ffurfio llwybrau mewnol a maes parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig“*

Roedd swyddogion yn argymhell i'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Mawrth 2022 y dylid ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer y broses gynllunio uchod. Yn dilyn trafodaeth faith a llawn, roedd Aelodau wedi penderfynu gwrthod caniatâd cynllunio yn erbyn argymhelliad Swyddog. Roedd y diweddar Gynghorydd Peter Prendergast yn cynnig gwrthod y cais a'r Cynghorydd Ellie Chard yn eilio. Y rheswm dros wrthod oedd:

1. Roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y byddai newid defnydd o safle'r tir yn arwain at orddwysau y defnydd o'r safle. Byddai effaith cronrus creu safle Teithwyr preswyl safle 6 llain ar hyd yr annedd ar y safle 0.2 ha yn cynrychioli dull

*gorddwys o ddatblygiad yn agos at eiddo preswyl ar Rodfa Knowsley a fyddai'n cynyddu'r posibilrwydd o fwy o amhariad a gweithgaredd yn yr ardal ac yn arwain at effaith andwyol ar iechyd a lles preswylwyr. O ganlyniad, ystyrir bod y cynnig yn gwrthdaro gyda meini prawf vi) polisi RD 1 a meini prawf iv) Polisi BSC10 Polisi Cynllun Datblygu Lleol BSC10, sydd angen i gynigion beidio bod yn andwyol i amwynder defnyddwyr eiddo cyfagos.*

2. *Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y byddai'r cynnig yn ffurfioli'r defnydd cynyddol o fynediad ar Vale Road a ystyrir yn is na'r safon. Byddai'r defnydd o'r fynedfa ar gyfer graddfa a natur y datblygiad a gynigiwyd yn arwain at berygl i gerddwyr a defnyddwyr ffordd ar Vale Road yn groes i feini prawf vii) a viii) polisi RD 1 y Cynllun Datblygu Lleol.*

Roedd y bleidlais yn cynnwys 13 i wrthod caniatâd cynllunio, 2 i roi caniatâd cynllunio a 2 yn ymatal.

Wrth baratoi ar gyfer yr apêl, mae'r Swyddogion wedi sicrhau gwasanaethau Ymgynghorydd Cynllunio (Mr Philip Garner) i arwain achos y Cyngor. I'r perwyl hwn, mae eisoes wedi paratoi Datganiad Achos a gytunwyd gyda'r diweddar Gynghorydd Peter Prendergast ac Aelod Lleol y Cynghorydd Dianne King. Mae'r datganiad hwn wedi'i gyflwyno i PEDW.

Yn dilyn marwolaeth drist y Cynghorydd Pete Prendergast, mae Swyddogion nawr yn gofyn i Aelodau enwebu aelod (neu aelodau o'r pwyllgor cynllunio i gynrychioli'r Cyngor yn yr apêl cynllunio gyda'r Ymgynghorydd Cynllunio.

Mae copi o'r adroddiad Swyddog gwreiddiol ynghlwm fel Atodiad A, copi o gofnodion y cyfarfod fel Atodiad B a chopi o'r penderfyniad i wrthod ynghlwm fel Atodiad C.

### **3. ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor Cynllunio yn enwebu hyd at 2 Aelod i gynrychioli'r Awdurdod Cynllunio Lleol, gyda chefnogaeth Swyddog perthnasol yn yr Apêl Cynllunio a gynhelir. Bod yr Aelodau hynny yn mynychu gwrandawriad yr apêl ac yn rhoi mewnbwn perthnasol i amddiffyn penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio.